Cwrdd â'r Ffermwyr

Narmaben – Ffermwr Cotwm Masnach Deg o India

www.traidcraft.co.uk

Mae Narmaben Manji, sy'n gweithio fel ffermwr cotwm yn India, yn gobeithio y bydd gwerthu cotwm Masnach Deg yn helpu i roi dyfodol gwell i'w hwyrion.

Mae Narmaben yn gwybod sut brofiad yw straffaglu i fagu plentyn. Bu farw ei gŵr, Harilel, 28 mlynedd yn ôl, gan ei gadael gyda'u mab chwe mis oed, Mahendra, i'w fagu ar ei phen ei hun.

"Roedd fy mab yn chwe mis oed pan fu farw fy ngŵr," meddai. "Roedd yn gyfnod anodd iawn."

"Rwy'n gweithio yn y caeau, yn casglu a chwynnu. Rwy'n cael pris da am fy nghotwm. Drwy gyflenwi Masnach Deg rydym hefyd yn cael cyngor da, a chredyd di-log."

"Rwyf am roi addysg dda i'm hwyrion."

Mae Masnach Deg yn ceisio cynyddu enillion ffermwyr a'u cynorthwyo i ddatblygu arferion ffermio sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. Mae premiwm Masnach Deg yn galluogi cydweithfeydd i ariannu prosiectau er lles y gymuned, gan gynnwys drilio tyllau tirio i gael dŵr glân ac adeiladu ysgolion a chlinigau meddygol.

Mae'r ffermwyr yn gweithio ar ran cydweithfa, o'r enw Agrocel, yn gwerthu eu cotwm i Traidcraft, mudiad Masnach Deg yn y DU.

Narmaben yn y caeau cotwm. Llun: Traidcraft/ Shailan Parker

Chakuben- Ffermwr Cotwm Masnach Deg o India

www.peopletree.co.uk

Mae Chakuben yn gweithio gyda'i gŵr yn India. Mae ganddynt ddau o blant. Gyda'u cyflogau am weithio yn y caeau gallant fforddio anfon y plant i'r ysgol gynradd leol. Maent yn gweithio dros Gydweithfa Masnach Deg o'r enw Agrocel, lle mae menywod yn derbyn yr un cyflog â dynion – rhywbeth prin – ac yn derbyn cyfnod mamolaeth cyflogedig. Mae ffermwyr yn derbyn 30% o bremiwm uwch ben pris cotwm confensiynol, ac maent yn derbyn pensiwn, yswiriant iechyd, ac adnoddau meddygol da.

Mae Agrocel yn darparu ffordd arall o ffermio cotwm i ffermwyr cotwm India; mae'n eu cynorthwyo i droi'n organig ac at Fasnach Deg. Mae Agrocel wedi datblygu dulliau ffermio naturiol a phlaladdwyr naturiol i reoli'r plâu. Mae ffermwyr yn defnyddio chilli, garlleg a sebon yn lle cemegau drud a niweidiol, gan arbed hyd at 3000 rupee yr acer i'r ffermwyr.

Mae ffermio organig yn amddiffyn y blaned drwy ddal 1 tunnell o CO2 yn y tir yn flynyddol fesul acer. Mae ffermwyr wedi defnyddio cotwm organig a Masnach Deg fel ffordd o ddianc rhag benthycwyr arian, a oedd yn y gorffennol yn gwerthu plaladdwyr a hadau cotwm drud, yn aml yn twyllo ffermwyr. Drwy gotwm Masnach Deg, mae ffermwyr wedi medru ailadeiladu eu bywydau yn ogystal â chryfhau eu cymunedau. Mae'r elw wedi'i ail-fuddsoddi ac yn cefnogi ysbyty canser yn ne India.

Mae People Tree yn prynu cotwm Agrocel. Mae'r cotwm Masnach Deg y mae People Tree yn ei brynu wedyn yn cael ei droi'n ddillad ffasiynol.

Bakary Diarra – ffermwr cotwm o Mali (nid Masnach Deg)

www.christianaid.org.uk

Mae Bakary Diarra yn ffermwr cotwm o Mali, un o wledydd tlotaf y byd. Er gweithio oriau hir yn y caeau, bob blwyddyn mae yntau a'i deulu yn ennill llai a llai o arian am eu cotwm. Fel miliynau o ffermwyr ar raddfa fechan mewn gwledydd tlawd, mae Bakary yn cael ei orfodi i gystadlu'n uniongyrchol gyda busnesau grymus o'r byd cyfoethog. Er gwaetha'r ffaith fod Bakary yn cynhyrchu cotwm yn effeithiol, mae cotwm tramor yn aml yn rhatach yn sgil y cymorthdaliadau mawr y mae llywodraethau yn eu talu i ffermwyr gorllewinol. Felly nid oes syndod ei fod ar ei golled. Cymorthdaliadau yw taliadau ychwanegol gan lywodraethau i ffermwyr am eu cnydau. Efallai bod llywodraethau am wneud hyn i sicrhau fod y cnwd yn gwerthu'n dda ac i greu swyddi i bobl yn eu gwlad. Mae'r effaith yn andwyol ar gyfer gwledydd eraill, ar gyfer Bakary a miloedd o ffermwyr tebyg iddo. Maent yn straffaglu i dalu am hanfodion sylfaenol bywyd, fel gofal iechyd ac addysg i'w plant.

Dywedodd Bakary wrth Cymorth Cristnogol ei fod yn poeni na fydd yn medru prynu dillad i'w deulu, ac mae'n disgwyl gorfod gwerthu rhai gwartheg er mwyn goroesi. Byddai hynny'n ddechrau ar ddirywiad difrifol.

"Os na fyddwn yn ennill arian o'r cotwm, ni fyddwn yn medru prynu bwyd," meddai. "Os fydd unrhyw aelod o'r teulu yn colli ei iechyd, ni fyddwn yn medru gofalu amdano. Os fydd unrhyw rai o'n cerbydau angen eu trwsio, ni fydd modd i ni wneud hyn."

Pe na bai hynny'n ddigon drwg, ni fydd y ffermwyr yn cael pris teg am yr hyn y maent yn ei gynhyrchu. Yn fyd-eang, mae cotwm yn wynebu trafferthion: mae'r pris ar farchnad y byd wedi syrthio 66% ers 1995. I ychwanegu at yr anghyfiawnder, mae ffermwyr cotwm o Mali'n cynhyrchu cotwm yn fwy effeithiol ac yn rhatach na rhai'r UDA. Pe na bai cymorthdaliadau, ffermwyr yr UDA fyddai'n methu cystadlu.